

13 Gorffennaf 2026

Danfonwyd drwy ebost at: feedback@amnesty.org.uk

At sylw:
Kerry Moscogiuri, Prif Weithredwr – Amnesty International UK

Helen Horton, Cadeirydd – Bwrdd Adrannol Amnesty International UK

Sandy Ruthven MBE, Cadeirydd – Ymddiriedolaeth Elusennol Amnesty International UK

Annwyl Ms Moscogiuri, Ms Horton a Mr Ruthven

Parthed: A Growing Threat – the Anti-Rights Movement in the UK

Ysgrifennaf ynglŷn â chynnwys yr adroddiad uchod a honiadau di-sail sy'n effeithio ar ein henw da. Fel sefydliad llawr-gwlad sy'n canolbwyntio ar ***amddiffyn a hyrwyddo hawliau menywod*** yng Nghymru a thu hwnt, roeddem yn gresynu i weld ein bod ni a llawer o sefydliadau tebyg, heb unrhyw sail, yn cael ein labelu'n "Anti-Rights", a bod y pwrpas a'r gwerthoedd sy'n sylfaenol i'n gwaith wedi'u camliwio'n llwyr.

Er nad yw'r adroddiad ar eich gwefan mwyach, mae'n parhau i fod mewn cylchrediad ac mae effaith y camwybodaeth am Merched Cymru a sefydliadau eraill yn parhau. Er mwyn i ni allu ystyried y camau nesaf, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

1 Manylion y fethodoleg a'r meini prawf a ddefnyddiwyd yn y broses ymchwil i sefydlu a ellid disgrifio sefydliad yn gywir fel "Anti-Rights" a'i gynnwys yn yr adroddiad.

2 Manylion pa ymdrechion a wnaed i gysylltu â Merched Cymru i gael gwybodaeth am natur ac amcanion y sefydliad a'i werthoedd craidd.

3 Manylion penodol am unrhyw dystiolaeth sydd gan Amnesty International UK arweiniodd i'r casgliad bod Merched Cymru yn bodloni'r trothwy ar gyfer bod yn sefydliad sy'n gwrthwynebu hawliau ("Anti-Rights").

Byddem yn ddiolchgar am ymateb o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y llythyr hwn.

Yn gywir

Beth Price

Ar ran **Gweithredgor Merched Cymru**